

Canllawiau cymeradwyo modiwlau newydd – gan y Panel Dilysu Modiwlau Newydd

<https://www.bangor.ac.uk/quality/course/valid.php.cy>

Safonau a chanllawiau sicrhau ansawdd:

- [Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu](#)
- [Fframwaith Asesu](#)
- [Canllawiau Hyfforddi i Greu Modiwl Newydd \(Worktribe\)](#)

Mae'r brifysgol wedi ymrwmo i ddarparu lefel briodol a chynyddol o her i'w myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. Elfen allweddol o gwricwlwm sy'n seiliedig ar her yw darparu cyfeiriad i fyfyrwyr i her a gyflwynir ar bob lefel drwy ddeilliannau dysgu sydd wedi eu geirio'n glir.

- [Canllawiau i Ddeilliannau Dysgu mewn Modiwlau](#)
- [Ysgrifennu Deilliannau Dysgu](#)
- [Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd](#)

Rhaid cwblhau asesiad effaith iaith Gymraeg ar gyfer pob rhaglen newydd a modiwl annibynnol. Gellir lawr lwytho'r ffurflenni o wefan y brifysgol:

Mae modiwlau newydd bellach yn cael eu creu yn y Worktribe Curriculum System

Saesneg: <https://curriculum.bangor.ac.uk/>

Cymraeg: <https://cwrwlwm.bangor.ac.uk/>

Gweithdrefn Cymeradwyo Modiwlau

Gellir cynnig modiwlau newydd y tu allan i'r broses ddilysu ac ailddilysu rhaglenni dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- os yw cyrff proffesiynol yn gofyn amdanynt,
- i greu llwybrau newydd sy'n gysylltiedig â chyllid,
- am resymau'n ymwneud ag adnoddau,
- i ddiwallu anghenion strategol fel yr amlinellwyd gan y Grŵp Strategaeth Academiaidd.

Gellir cymeradwyo modiwlau hefyd y tu allan i ddilysu ac ailddilysu rhaglenni pan fo amlinelliad wedi ei gymeradwyo gan y Grŵp Gwella Ansawdd trwy'r broses adolygu flynyddol (QA1).

Asesiad Effaith Safonau'r Gymraeg (2016)

Yn achos modiwlau annibynnol, dylai'r panel ystyried asesiad effaith Safonau'r Gymraeg (2016) sy'n nodi sut mae'r newidiadau yn debygol o effeithio ar allu staff i weithio yn y Gymraeg, recriwtio a chadw staff dwyieithog a darparu addysgu cyfrwng Cymraeg.

Bydd paneli hefyd yn ystyried i ba raddau y mae cynllun yr addysgu a gyflwynir yn ystyried anghenion a blaenoriaethau myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig ac i ba raddau mae'r modiwl newydd yn debygol o feithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau â nodweddion gwarchoddedig ag eraill.

Cymeradwyo Modiwlau

Bydd y Panel Dilysu Modiwlau Newydd yn asesu modiwlau yn erbyn y gosodiadau isod ac yn dod i un o'r penderfyniadau canlynol:

- Cymeradwyo'r modiwl
- Cymeradwyo'r modiwl ar yr amod bod yr ysgol yn gwneud mân ddiwygiadau. Caiff y rhain eu nodi a dylid eu cwblhau cyn cynnwys y modiwl ym mlwyddlyfr y brifysgol
- Peidio â chymeradwyo'r modiwl a'i gyfeirio'n ôl i'r ysgol.

Rhaid i'r drefn gymeradwyo modiwlau ystyried y canlynol:

1. Deilliannau dysgu'r modiwl, gan gynnwys eu heglurder a'u haddasrwydd i'r lefel ddysgu benodol.
2. Perthynas deilliannau dysgu'r modiwl â deilliannau dysgu'r rhaglen os cynigir bod y modiwl yn greiddiol neu'n orfodol i unrhyw raglen.
3. I ba raddau y mae'r strategaeth addysgu a dysgu, y strategaeth strwythur a'r asesu yn ateb anghenion pob myfyriwr.
4. I ba raddau y bydd y strategaeth addysgu a dysgu, y strategaeth strwythur ac asesu yn darparu cyfleoedd dysgu sy'n angenrheidiol i alluogi myfyrwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu.
5. Pwysoliad credydau'r modiwl.
6. I ba raddau mae'r asesiad yn cyd-fynd â [Fframwaith Asesu](#) Bangor.
7. Perthynas y strategaeth asesu â'r strategaeth asesu ar lefel rhaglen os cynigir bod y modiwl yn greiddiol neu'n orfodol i unrhyw raglen.
8. Y meini prawf marcio a pha mor addas ydynt i'r dulliau asesu, y deilliannau dysgu a lefel y dysgu
9. Os caiff modiwl ei ddiwygio neu ei ddisodli, effaith unrhyw ddiwygiadau ar raglenni eraill y mae'r modiwl yn greiddiol iddynt neu'n rhan orfodol ohonynt.
10. Os yw'r modiwl yn cynnwys dysgu a/neu asesu gan staff nad ydynt yn aelodau o'r brifysgol, natur yr oruchwyliaeth a ddarperir.
11. A oes raid i staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r modiwl neu i fyfyrwyr sy'n astudio'r modiwl gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er enghraifft os yw'r modiwl yn golygu dod i gysylltiad â phlant neu oedolion bregus.

Addysgu ar y cyd ar draws lefelau

Fel rheol, ni chaniateir addysgu ar y cyd ar draws lefelau. Caniateir hynny ar draws lefelau cyfagos yn unig (e.e. ar draws Lefelau 5 a 6 neu ar draws Lefelau 6 a 7) ac os yw'r modiwlau wedi eu cynllunio yn unol â'r canllawiau canlynol:

- Rhaid cael modiwlau wedi eu codio a'u dilysu ar wahân ar gyfer pob lefel gyda deilliannau dysgu a dulliau asesu y gellir gwahaniaethu rhyngddynt yn eglur.
- Os addysgir modiwlau bob yn ail flwyddyn, rhaid cynllunio fersiynau Lefel 5 a Lefel 6 o'r modiwl fel y gall pob grŵp carfan gyflawni pob un o'r deilliannau dysgu.
- Bydd gweithgareddau addysgu ar y cyd ar draws modiwlau fel arfer yn cynnwys addysgu didactig yn hytrach na disgyrsiol (er enghraifft darlithoedd yn hytrach na seminarau neu diwtorialau).
- Os disgwylir i fyfyrwyr drafod, dadansoddi neu ddehongli, dylid trefnu gweithgareddau ac asesiadau ar wahân ar gyfer pob lefel. Fel rheol bydd gweithgareddau felly ar ffurf tiwtorialau, seminarau, gwaith grŵp a chyflwyniadau.
- Efallai y bydd gan fodiwlau ar draws lefelau 5 a 6 asesiadau penodol a fydd yn gorfod rhoi prawf ar ddeilliannau dysgu penodol. Ni ddylid rhoi asesiadau unfath mewn modiwlau lle addysgir ar y cyd ar draws lefelau 6 a 7.
- Pan fydd ysgolion yn dymuno dilysu neu ail-ddilysu modiwlau a addysgir ar draws lefelau, dylid cyflwyno'r ddwy fersiwn i'w cymeradwyo.

Deilliannau Dysgu

Cyfeiriwch hefyd at y canlynol:

- [Canllawiau i Ddeilliannau Dysgu mewn Modiwlau](#)
- [Ysgrifennu Deilliannau Dysgu](#)

- Dechreuwch gyda berf weithredu ac ysgrifennwch yn yr amser dyfodol. Yr hyn y bydd myfyrwyr yn gallu ei gyflawni ar ddiwedd y modiwl. Ceir enghreifftiau da yn y ddogfen 'Ysgrifennu Deilliannau Dysgu'
- Brawddegau clir a chryno y gall myfyrwyr, cydweithwyr ac arholwyr allanol eu deall.
- Dylent fod yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.

- Ysgrifennwch y canlyniad gyda'r hyn rydych eisiau i'r myfyrwyr allu ei wneud ar ôl cwblhau'r modiwl a sut y cânt eu hasesu.
- Argymhellir bod oddeutu 4 deiliant dysgu yn briodol ar gyfer modiwl 20 credyd.
- Gwnewch hwy'n berthnasol i'r pwnc.
- Peidiwch â chyfeirio at y broses o ddulliau ac asesiadau addysgu a dysgu yn y deiliant.
- Dylech sicrhau eu bod yn adlewyrchu lefel y dysgu angenrheidiol a'r dilyniant drwy'r lefelau.
- Dylech sicrhau bod deiliant y modiwl yn berthnasol ac yn cyfrannu at ddeiliant dysgu'r rhaglen.
- Ni argymhellir defnyddio'r berfau canlynol ar ôl lefel 4 gan eu bod yn anodd eu mesur neu eu harsylwi: Gwerthfawrogi, gwybod, dysgu a deall.

Meini Prawf Asesu

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer modiwl yn cael eu cofnodi yn y maes strategaeth asesu o dan y tab manylion ar gofnod y modiwl ar yr Worktribe Curriculum Management System. Fel isafswm dylai'r blwch hwn gynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr ei arddangos er mwyn cyrraedd gwahanol lefelau perfformiad (trothwy, da, ardderchog). Rhaid ysgrifennu meini prawf marcio yn y fath ffordd fel y gall myfyrwyr eu deall yn hawdd.

Yn ddelfrydol, dylai fod gan bob modiwl ei feini prawf marcio penodol ei hun sy'n berthnasol i'r pwnc.

Fodd bynnag, caniateir defnyddio meini prawf cyffredinol (manyion isod), ar yr amod eu bod yn ddigon manwl ac yn berthnasol i'r modiwl a'r dulliau asesu.

Rhaid cynnwys cyflwyniad clir o'r marciau yn erbyn y meini prawf marcio.

	Israddedig	Ôl-radd
Rhagorol	70%> -A	70%>
Da	50%> -B	60%>
Trothwy	40%> -D	50%>
Gellir defnyddio yr ystod marciau categorïaidd.		

Meini Prawf Cyffredinol Marcio Modiwlau

Mae meini prawf y ffurflen gymeradwyo modiwl hyn yn rhoi arweiniad i ysgolion ynglŷn â'r hyn sy'n rhaid ei gynnwys fel meini prawf marcio wrth gyflwyno modiwl newydd i'w gymeradwyo. Bwriedir y meini prawf hyn fel safonau 'sylfaenol' cyffredinol. Anogir ysgolion i addasu'r meini prawf er mwyn eu cysylltu mor agos â phosib ag asesiadau neilltuol. Er enghraifft, mewn modiwl gydag arholiad a chyflwyniad llafar, mae'n ymarfer da darparu meini prawf ar gyfer y ddau fath o asesiad. Nid oes rhaid i'r meini prawf fod mor fanwl â'r meini prawf a gyhoeddir yn y llawlyfr myfyrwyr/aminelliadau modiwl ar-lein ond gall ysgolion ddewis cyflwyno meini prawf cyrhaeddiad modiwl yn y ffurflen fodiwl newydd.

Rhagorol (A)

Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth fanwl, sy'n adlewyrchu astudiaeth gefndirol helaeth. Mae'r gwaith yn hynod bwrpasol, wedi ei strwythuro'n dda, wedi ei gyflwyno'n rhesymegol, a chefnogir y dadleuon. Mae'r gwaith yn cynnwys dehongli gwreiddiol a datblygir cysylltiadau newydd rhwng pynciau. Mae'r gwaith wedi ei gyflwyno i safon dda gyda chyfathrebu cywir a dim gwallau ffeithiol neu gyfrifiannol.

Da (B)

Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ond gyda rhai cyfyngiadau. Ceir tystiolaeth o astudio cefndirol. Mae strwythur pendant a rhesymegol i'r gwaith ond mae rhai gwendidau yn y ffordd y cyflwynir dadleuon. Ceir rhywfaint o ddehongli gwreiddiol a dangos cysylltiadau rhwng pynciau. Mae'r gwaith wedi ei gyflwyno'n ofalus gyda chyfathrebu cywir ac ychydig iawn o wallau ffeithiol neu gyfrifiannol.

Llwyddo (C neu D ar Lefel 4-6: C ar Lefel 7)

Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth am feysydd/egwyddorion allweddol yn unig ac ychydig o dystiolaeth sydd o wreiddioldeb neu o astudiaeth gefndirol. Mae'r gwaith yn cynnwys peth deunydd amherthnasol a gwendidau yn ei strwythur. Cyflwynir dadleuon ond nid oes cydlyniad rhyngddynt. Mae'r gwaith yn cynnwys

gwallau ffeithiol/cyfrifiannol gyda fawr ddim tystiolaeth o ddatrys problemau. Mae gwendidau yn safon y cyflwyniad a'i gywirdeb.

Dull Asesu

Cofnodir asesiadau modiwl fesul un yn y tab asesu ar gofnod y modiwl yn yr [Worktribe Curriculum Management System](#). Ceir cyfarwyddiadau manwl ar sut i fewnbynnu data i'r meysydd penodol yn y [Ddogfen Ganllaw i Fodiwlau Newydd](#).

Gwaith grŵp/Asesu Cyfoedion

Os yw'r asesu'n cynnwys gwaith grŵp neu asesu cyfoedion dylid nodi'n eglur y dull o bennu marc myfyriwr unigol.

Materion i'w hystyried:

- A roddir marc grŵp neu farc unigol i'r myfyriwr? Os yw'n farc grŵp, dylid ystyried rhoi pwysoliad % is iddo
- Rhaid monitro asesu cyfoedion a sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu er mwyn sicrhau chwarae teg i'r holl fyfyrwyr. Sut caiff ei ail farcio neu ei wirio os oes cwyn?
- **Rhaid** i farc gael ei gysylltu â darn o waith, felly ni chaniateir cysylltu asesu â phresenoldeb.

Disgrifiad

Disgrifiad byr o'r gwaith i'w asesu. Nid yw'n ddigon nodi gwaith cwrs neu draethawd. Bydd yn rhaid rhoi disgrifiad byr i'r myfyriwr. Peidiwch â chynnwys teitlau traethawd penodol oherwydd unwaith bydd y modiwl wedi ei gyhoeddi yn y Blwyddlyfr ni ellir ei newid.

Deilliannau Dysgu

Cysylltwch y deilliannau dysgu â'r asesiadau. Dylai pob asesiad fesur un neu fwy o ddeilliannau dysgu a rhaid asesu pob deiliant o leiaf unwaith. Peidiwch â chlicio ar yr holl ddeilliannau dysgu i'r holl asesiadau gan y gellid ystyried hyn fel gorasesu.

Pwysoliad

Rhaid cynnwys pwysoliad y gwahanol elfennau a rhaid gallu eu cymharu o ran y gwaith sydd ynghlwm.

Mesur y llwyth asesu (cyfeiriwch at y Fframwaith Asesu)

Mae angen disgrifiad llawn. Rhaid cynnwys y canlynol:

- uchafswm geiriau adroddiadau/traethodau/blogiau etc.
- terfynau amser arholiadau a chyflwyniadau.

Darnau o'r Fframwaith Asesu

Baich Gwaith Asesu a Chanllawiau Cywerthedd

Er mwyn gweithredu'r egwyddorion uchod, dylai'r rhai sy'n cynllunio modiwlau a rhaglenni gymryd camau i sicrhau bod y baich gwaith asesu'n briodol, ac yn dod o fewn yr hyn a ystyrir yn dderbyniol gan reoliadau Prifysgol Bangor.

Fel canllaw, awgrymir fel man cychwyn y dylid rhoi **amser tybiannol o 2-2.5 awr fesul credyd i'w asesu**.

Yn achos dulliau asesu traddodiadol gellid trosi hyn yn **200-250 gair fesul credyd** (am draethawd), a **12-15 munud fesul credyd** (yn achos arholiad). Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod arholiad 1 awr yn cynrychioli 10 awr o amser, a bod traethawd 1,000 o eiriau hefyd yn cynrychioli 10 awr o amser.

Ar sail dull asesu sengl damcaniaethol, mae hyn yn awgrymu y byddai gan fodiwl 10 credyd naill ai draethawd 2,000 - 2,500 o eiriau neu arholiad 2-2.5 awr, gyda chyfanswm amser o 20-25 awr.

O ran cywerthedd, awgrymir y byddai angen 10 awr o amser i bob un o'r canlynol:

- Poster;
- Prawf aml-ddewis yn para awr;
- Cyflwyniad llafar 10 munud;
- Perfformiad cerddorol yn para 10 munud;
- Cofnod adfyfyriol 2,000 o eiriau mewn dyddiadur/blog;
- Asesiad clinigol 10 munud.

Mae enghreifftiau o gyfuniadau o wahanol asesiadau i'w cael yn y Fframwaith Asesu.

Detholiadau o Reoliad 01: Gwaith Cwrs ac Arholiadau

Ar gyfer projectau ymchwil cyrsiau Ôl-radd Hyfforddedig:

- Project ymchwil 60 credyd - rhaid gofyn am uchafswm o 20,000 o eiriau
- Project ymchwil 60 credyd - rhaid gofyn am uchafswm o 40,000 o eiriau

Faint o waith a asesir

- Os asesir modiwl trwy gyfuniad o ddulliau, dylid addasu hyd yr arholiad a'r gwaith cwrs. Er enghraifft, mewn modiwl 10 credyd a asesir trwy arholiad a thraethawd (y ddau'n werth 50% o farciau'r modiwl), ni chaiff yr arholiad fod yn hwy na 1½ awr ac ni chaiff y traethawd fod yn hwy na 2,000 o eiriau.
- Rhaid i drefnwyr y modiwl sicrhau bod yr amser gofynnol ar gyfer asesiadau (gan gynnwys amser paratoi) ynghyd â'r amser a dreulir mewn gweithgareddau eraill (e.e. darlithoedd) yn 100 o oriau dysgu fesul modiwl 10 credyd.

Uchafswm Geiriau

- Rhaid pennu uchafswm geiriau gwaith cwrs pan gaiff modiwlau eu cymeradwyo.
- Rhaid rhoi'r uchafswm geiriau i'r myfyrwyr gyda manylion pob asesiad.
- Nid yw'r uchafswm geiriau yn cynnwys troednodiadau, llyfryddiaeth nac atodiadau.
- Yn achos modiwlau ac eithrio projectau ymchwil ar gyrsiau ôl-radd hyfforddedig, gall trefnydd y modiwl osod nifer geiriau sy'n cynnwys troednodiadau, llyfryddiaeth ac atodiadau, ar yr amod bod myfyrwyr yn gwybod eu bod wedi eu cynnwys yn y nifer geiriau.

Dull Addysgu

Oriau Dysgu Tybiannol

- Dylai cyfanswm yr amser 'cyswllt' ac 'astudio preifat' yn y modiwl gyd-fynd â'r 'cyfanswm credydau'
- Er enghraifft ar gyfer modiwl 20 credyd, dylai cyfanswm yr amser astudio preifat a'r amser cyswllt fod yn 200 awr.
- Dylid dadansoddi'r oriau cyswllt yn yr adran 'patrwm y dysgu' a rhestru sut y cyflwynir y rhain yn yr adran strategaeth addysgu. Er enghraifft:
 - Ar gyfer modiwl 20 credyd gyda 48 awr o amser cyswllt, rhaid wrth 152 awr o astudio personol.

Rhaid i chi lenwi pob adran yn y cofnod:

- Strategaeth addysgu: Dylech gynnwys crynodeb byr o sut y bydd y modiwl yn cael ei gyflwyno bob wythnos trwy ddadansoddi'r amser cyswllt er enghraifft:
 - Darlithoedd – 24 awr (2 yr wythnos dros 12 wythnos)
 - Seminarau – 12 awr (1 yr wythnos dros 12 wythnos)
 - Ymweliadau allanol – 12 awr (4 ymweliad x 3 awr)
- Rhaid cynnwys disgrifiad byr o'r hyn y mae disgwyl i'r myfyrwyr ei gyflawni mewn astudio personol

Sylwer:

- Dylai'r dull addysgu fod yn glir a chael ei adlewyrchu ym manyleb y rhaglen berthnasol. Os yw modiwl yn fodiwl craidd mewn rhaglen yna mae'n rhaid i'r dull addysgu gael ei restru a'i fapio yn erbyn deilliannau dysgu'r rhaglen.